

# DOLEN Y TAB 119

2-3 Medi 2022

## Oedfa Sul 4 Medi am 11

Dan ofal Heulyn Rees a Geraint Wyn gyda Sian Elin ar yr organ. Bydd cyfle yn ystod y cwrdd i groesawu gwestai o'r Wcráin.

## YR OEDFAON NESAF

### Medi

- 11 Y Parchedig Aled Edwards
- 18 Dr Nathan Munday
- 25 Y Parchedig Gethin Rhys

### Hydref

- 2 Ann ac Emlyn Davies
- 9 Y Parchedig Aled Edwards gyda'r Parchedig Eirian Rees yn llywyddu.

## Hefyd ddydd Sul 4 Medi

**7.30yb / 16.30yp Radio Cymru - Caniadaeth y Cysegr** Huw Foulkes yn trafod sut mae rhai o'n corau'n cyfrannu tuag at ein traddodiad emynyddol.

### 12.00 Radio Cymru

Oedfa yng ngofal Evan Morgan, Caerdydd.

### 12.30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

### 20.00 S4C – Dechrau Canu Dechrau Canmol

Cymanfa Ganu Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023, a gynhaliwyd yng Nghapel Salem, Caernarfon dan arweiniad Pat Jones.

## Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd am 7.30 nos Fawrth 13 Medi. Os oes gennych gwestiwn i'w holi neu fater yr hoffech i'r Bwrdd ei drafod, rhowch wybod i'r Ysgrifennydd erbyn nos Lun 12 Medi (gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205).

## Merched y Tab

### SGŴRS DROS BANED

10.30 Bore Gwener, 9 Medi

Y Ganolfan

Croeso cynnes i bawb

## Brysiwch Wella

Estynnwn pob dymuniad da i Audrey Lewis, Ton-teg, yn dilyn codwm gas iawn a gafodd hi'n ddiweddar. Bellach mae wedi dod gartref ac yn gwella'n araf o'r anafiadau.

## BANCAU BWYD

Gyda'ch haelioni parhaus, fe lwyddodd y Tabernacl i rannu £1,540 rhwng Banc Bwyd Taf Elái a Banc Bwyd Salem, Tonteg yn ystod mis Awst, i'w cefnogi wrth iddyn nhw wynebu galw cynyddol yn ystod gwyliau ysgol. Diolch o galon i chi.

A ninnau bellach ar drothwy'r hydref, a'r gaeaf yn nes-áu, bydd wynebu cynnydd mewn costau byw yn ar-teithiol i lawer iawn o deuluoedd, ac mae'n braf gwybod ein bod yn medru parhau â'n cefnogaeth.

Medrwrch gyfrannu yn y dulliau arferol, trosglwyddiad banc neu siec, drwy Arwyn, ein Trysorydd.

Diolch yn fawr i chi am eich cyfraniadau dros y blynyddoedd. Bydd angen ein cefnogaeth am flynyddoedd i ddod.

Y GWEITHGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL

**Flair Haf EFAIL ISAF Village Fete**

Saturday 10th Sept 2022 at 1.00pm

Dydd Sadwrn Medi 10fed 2022 am 1 o'r gloch

Admission By Programme £1.00 Per Family

Mynediad gyda rhaglen £1 y teulu

NEUADD EFAIL ISAF VILLAGE HALL

at Efail Isaf Village Hall and Playing Fields  
Yn Neuadd y Pentref a'r meysydd chwarae

Refreshments | BBQ | Stalls | Games | Cakes | Raffle | and lots more  
Lluniaeth | Barbeciw | Stondinau | Chwaraeon | Cacennau | Raffi | a llawer mwy



# Pigion o'r Gwefannau

## Heulwen Dan Gymylau

Un o'r digwyddiadau pwysicaf yn ystod Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr ddechrau Gorffennaf oedd lansiad swyddogol 'Heulwen dan Gymylau', sef llawlyfr a gynhyrchwyd fel rhan o



ymgyrch yr Undeb i annog eglwysi Annibynnol ledled Cymru i fynd ati i fod yn eglwysi dementia-gyfeillgar. Bu Gweithgor, o dan faner Cyfundeb Dwyrain Morgannwg, wrthi'n ddyfal yn

llunio'r llawlyfr, gyda chymorth ac awgrymiadau gwerthfawr gan nifer o asiantaethau a sefydliadau sy'n gweithio yn y maes. Emllyn Davies, arweinydd a phrif ysgogydd yr ymgyrch, gyflwynodd y pecyn i'r cynadleddwyr yng Nghaerfyrddin. I gyd-fynd â'r lansiad cynhyrchwyd fideo sy'n cynnig cyflwyniad cryno campus o fwriad yr ymgyrch y gellir ei wyllo ar wefan yr Undeb ([www.annibynwyr.org/cy/blog/wall/\\*](http://www.annibynwyr.org/cy/blog/wall/*)).

Trefnwyd i ddosbarthu un copi o'r llawlyfr i bob capel Annibynnol yng Nghymru yn ystod yr wythnosau nesaf, ond hefyd mae'r adnodd, yn ei gyfanrwydd, ar gael yn Is-adran 'Eglwysi Dementia-gyfeillgar' gwefan yr Undeb

(<http://www.annibynwyr.org/cy/page/eglwysi-dementia-gyfeillgar>). Bydd y fersiwn digidol hwn nid yn unig yn hwyluso defnydd o'r cynnwys gan unigolion, ond hefyd yn cynnig adnoddau pellach megis sleidiau PowerPoint i rai o'r oedfaon enghreifftiol yn y llawlyfr print, ynghyd â rhagor o oedfaon enghreifftiol.

Hyderir y gwnaiff eglwysi unigol dderbyn yr her a osodir gan yr ymgyrch, ac y bydd yr adnoddau yn cynnig arweiniad ymarferol gwerthfawr iddynt.

## Llogi'r Capel / Ganolfan

*E-bostiwrch*  
gehpengwern@yahoo.co.uk  
*Neges Testun*  
07710 237327  
*Ffonio*  
01433 225205



**PANED A CHLONC**  
Dewch am glonc gyfeillgar ac hamddenol

**CUPPA AND A CHAT**  
Come for a friendly and relaxed chat

**Bob Dydd Mawrth**  
Every Tuesday  
10.30-12.00

Y Ganolfan  
Capel Tabernacl  
The Vestry,  
Tabernacl Chapel



**CERDDORIAETH BYW**

**BWNCATH**  
GYDA MABLI TUDUR YN CEFNOGI

**NOS WENER** 30/09/22 **Tocyn** £10

I archebu lle ewch i:  
[bookwhen.com/gartholwg](http://bookwhen.com/gartholwg)

Canolfan Garth Olwg Centre  
gartholwglic  
Heol Saint Illtyd, Penra'r Eglwys, CF38 1RQ

01443 570875

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org). Gofynnir i chi anfon newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk)